Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Hybu Cig Cymru (HCC)

Penodi Aelodau'r Bwrdd

Dyddiad cau: 05 Ionawr 2020

Rheoleiddiwyd gan y
Comisiynydd Penodiadau
Cyhoeddus

Cynnwys

Gwneud Cais

Atodiad A: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau HCC

Atodiad B: Disgrifiad o'r Swydd a Manyleb y Person

Atodiad C: Y broses Ddethol

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb mewn bod yn Aelod o Fwrdd Hybu Cig Cymru (HCC). Mae'r Atodiadau yn rhoi manylion rôl Aelodau'r Bwrdd a manyleb y person, swyddogaeth a chyfrifoldebau HCC a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar swydd Aelod o'r Bwrdd ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith.

Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Pan fyddwch wedi cofrestru byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich cyfraniad at gyflawni canlyniad penodol. Byddech yn helpu'r panel dethol hefyd pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer gyffredin.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod pe baech yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a dyddiadau eich cyfnod yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	5 Ionawr 2020
Llunio rhestr fer:	2 Chwefror 2019
Cyfweliadau:	17/18 Chwefror 2020
Penodi:	1 Ebrill 2020

Noder y bydd angen i'r rhai sy'n cael eu gwahodd i gyfweliad fod ar gael ar y dyddiadau canlynol: 17/18 Chwefror 2020.

Datganiad am Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog amrediad eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun O Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Manylion Cyswllt:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol
Ffôn: 03000 255454
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am swyddogaeth Hybu Cig Cymru a rôl aelodau'r bwrdd cysylltwch â:

Maria Richards
Ffôn: 03000 255002
E-bost: Maria.Richards@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Atodiad A

PECYN GWYBODAETH I YMGEISWYR

Swyddogaeth a Chyfrifoldebau Hybu Cig Cymru

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r sefydliad a arweinir gan y diwydiant sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru.

Ariennir HCC yn bennaf gan y Lefi Cig Coch. Mae ffermwyr a phroseswyr/allforwyr yn talu lefi am bob buwch, dafad a mochyn sy'n cael eu lladd yng Nghymru, ac mae hyn yn helpu i farchnata'r brandiau a datblygu'r gadwyn gyflenwi ar y cyd.

Cafodd HCC ei sefydlu yn 2003 gan Lywodraeth Cymru. Ar 1 Ebrill 2007 sefydlwyd HCC fel corff y mae Gweinidogion Cymru yn berchen arno yn ei gyfanrwydd.

Mae gwaith HCC yn cael ei wneud drwy ddwy adran weithredol (Datblygu'r Farchnad a Datblygu'r Diwydiant), ac mae'r rhain yn cael eu cefnogi gan yr adrannau Cyfathrebu , Strategaeth Corfforaethol a Pholisi, a Gwasanaethau Corfforaethol.

- **Datblygu'r Farchnad** – nod yr adran hon yw cynyddu enillion y diwydiant cig coch yng Nghymru drwy sicrhau bod gwerth cig coch yng Nghymru mor uchel â phosibl.
- **Datblygu'r diwydiant** – mae'r adran hon yn gweithio o fewn y diwydiant cig coch yng Nghymru i wella ansawdd a bod yn fwy costeffeithiol mewn ffordd gynaliadwy.
- **Cyfathrebu** – nod yr adran hon yw sicrhau bod y wybodaeth am ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â chig coch Cymru yn ogystal â'r amrediad llawn o weithgareddau HCC yn hysbys i randdeiliaid a defnyddwyr.
- **Strategaeth a Pholisi Corfforaethol** – mae'r adran hon yn gweithio i ddatblygu a gweithredu strategaethau a llywio penderfyniadau ynghylch y diwydiant cig coch yng Nghymru.
- **Gwasanaethau Corfforaethol** – mae'r adran hon yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r busnes a rheoli'r adnoddau sydd eu hangen.

Mae gan Hybu Cig Cymru un swyddfa gofrestredig – Hybu Cig Cymru, Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF.

Mae HCC yn datblygu nifer o farchnadoedd pwysig gartref a thramor, gan ddatblygu a chryfhau cyfleoedd busnes ar gyfer cwmnïau sy'n allforio cig coch o Gymru. Mae gwaith yn cael ei wneud yn rheolaidd gyda manwerthwyr a chwmnïau gwasanaethau bwyd, gan gomisiynu rhaglenni hyrwyddo rheolaidd ar gyfer Cig Oen Cymru PGI (Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig) a Chig Eidion Cymru PGI. Mae HCC yn arwain datblygiadau o fewn y diwydiant. Maent yn gwneud ymchwil a gwaith datblygu, yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi hyfforddiant sy'n berthnasol i bob rhan o'r gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn sicrhau bod y diwydiant cig coch yng Nghymru mewn sefyllfa i wella ansawdd, bod yn fwy costeffeithiol a chynyddu gwerth cynhyrchion cig coch ar draws y diwydiant cyfan.

Mae blaenoriaethau gweithredol a thargedau perfformiad HCC yn cael eu llywio gan y llythyr cylch gwaith blynyddol gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig sy'n pennu ei blaenoriaethau strategol; unrhyw bolisïau penodol a chynlluniau gweithredu; a pholisïau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae HCC yn rhannu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chynnal diwydiant amaethyddol llewyrchus, cynaliadwy sydd a amlinellir yn 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir 'https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-07/brexit-consultation-document.pdf).

Mae polisïau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru wedi eu hamlinellu yn Ffyniant i Bawb (http://gov.wales/newsroom/firstminister/2017/170919-new-national-strategy-for-a-more-prosperous-wales/?lang=cy) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gyda'i gilydd mae'r rhain yn gosod y fframwaith ar gyfer sefydlu amcanion penodol HCC, ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad sicrhau bod ei waith yn cefnogi'r saith nod llesiant yn ogystal â phum elfen lywodraethu yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Cafodd *'Gweledigaeth hyd at 2025'* HCC ei lansio ym mis Mai 2018. Mae'n weledigaeth i gefnogi diwydiant cig coch proffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol yng Nghymru sydd o fudd i bobl Cymru, sy'n gallu gwrthsefyll newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol, ac sy'n gallu ymateb i dueddiadau marchnad sy'n newid yn gyson mewn modd cystadleuol. Sail y weledigaeth yw'r naw maes â blaenoriaeth canlynol.

1. Sefydlu cig coch o Gymru fel cynnyrch premiwm.
2. Datblygu cyfleoedd masnachu yn yr UE ar gyfer cig coch Cymru
3. Cynyddu'r cig coch o Gymru sy'n cael ei fwyta yn y DU cymaint ag y bo modd
4. Chwilio am gwsmeriaid newydd i brynu cig coch o Gymru mewn marchnadoedd sydd eisoes wedi eu sefydlu
5. Canran uwch o gig coch Cymru yn cael ei allforio y tu allan i'r UE
6. Datblygu diwydiant cig coch cystadleuol yng Nghymru
7. Lleihau gwastraff ac effaith cynhyrchu a phrosesu cig coch Cymru ar yr hinsawdd a'r amgylchedd
8. Llunio cynlluniau wrth gefn ar gyfer masnachu, cynhyrchu a phrosesu yn y dyfodol wedi Brexit
9. Cyfathrebu effeithiol drwy'r diwydiant i sicrhau bod gan bawb yr un bwriad.

I gael rhagor o wybodaeth am HCC ewch i https://meatpromotion.wales/cy

Atodiad B

Disgrifiad o Rôl a Manyleb Person Aelodau'r Bwrdd

Rôl a chyfrifoldebau

Mae Bwrdd HCC yn arwain a llywodraethu HCC ac yn cyflawni'r rôl bwysig o graffu ar holl fuddsoddiadau a gweithgareddau HCC. Y Bwrdd hefyd sy'n pennu amcanion y dyfodol. Bydd Aelodau'r Bwrdd yn atebol fel unigolion ac ar y cyd i Lywodraeth Cymru drwy Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn bennaf mae Cadeirydd HCC yn gyfrifol am arwain y Bwrdd o Gyfarwyddwyr anweithredol i sicrhau bod HCC yn gweithredu'n effeithiol, ac mae'r Prif Weithredwr yn ymgymryd â rôl y Swyddog Cyfrifyddu wrth weithredu HCC. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i HCC gydymffurfio â darpariaethau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Dyma gyfrifoldebau allweddol y Bwrdd:

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni prif argymhellion yr adolygiad annibynnol o HCC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016.
- Arwain y gwaith o gyflawni 'Gweledigaeth 2025 – Gweledigaeth a Chyfeiriad Strategol ar gyfer y Sector Cig Coch yng Nghymru hyd at 2025'.
- Mynychu Is-bwyllgorau'r Bwrdd fel sy'n briodol.
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol HCC a Chynllun Gweithredu HCC drwy'r Bwrdd.
- Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro effeithiolrwydd HCC a bod gan holl Aelodau'r Bwrdd wybodaeth gywir, amserol a chlir ar berfformiad y cwmni.
- Cynnal trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu cynnal yn gywir ac yn briodol fel sy'n ofynnol gan sefydliad sy'n gwario arian cyhoeddus.
- Cyfathrebu â rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru a mynychu cyfarfodydd gyda nhw lle bo hynny'n briodol.
- Chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo safbwyntiau HCC i'r cyhoedd.

Manyleb y Person
I gael eich ystyried, mae'n **rhaid** ichi ddangos bod gennych y nodweddion arbennig, y sgiliau a'r profiad i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad hwn:

Meini Prawf Hanfodol

Gwerthfawrogi anghenion amaethyddiaeth a'r diwydiant bwyd ehangach

- Gallu dangos eich bod yn gwerthfawrogi'r problemau sy'n wynebu'r diwydiant a'r rhai sy'n talu'r lefi cig coch yng Nghymru.

Profiad o Ddatblygu Strategol

- Meddwl creadigol a datblygu strategol;
- Y gallu i ddadansoddi a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Profiad o Lywodraethu Corfforaethol

- Monitro effeithiolrwydd gweithgareddau a sicrhau bod gwybodaeth gywir, amserol a chlir ar berfformiad yn cael ei chasglu;
- Cyflawni gweithgareddau mewn ffordd gywir a phriodol.

Sgiliau Cyfathrebu

- Sgiliau cyfathrebu effeithiol gyda'r gallu i hyrwyddo safbwyntiau HCC a'r diwydiant i'r cyfryngau, y Llywodraeth a rhanddeiliaid;
- Sgiliau rhyngbersonol da a'r gallu i ddatblygu perthynas gadarn â rhanddeiliaid ac eraill.

Cydraddoldeb

- Ei gwneud yn haws cysylltu â rhanddeiliaid HCC a mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda chymunedau a rhanddeiliaid.

Profiad a Gwybodaeth: Meini Prawf Arbenigol

I sicrhau croestoriad o sgiliau ar Fwrdd HCC, wrth benodi aelodau bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd penodol canlynol:

- Marchnata (cwsmeriaid/masnach)
- Cyllid ac archwilio
- Talwyr ardoll cig coch (cynhyrchwyr cynradd a phroseswyr)
- Materion cyfreithiol a llywodraethu
- Academia

Yn ogystal â'r sgiliau arbenigol, byddai'n **ddymunol** pe bai gan aelodau'r Bwrdd y Sgiliau canlynol:

- Dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg.
- Profiad o gael eich holi gan y cyfryngau.
- Y gallu i herio mewn modd adeiladol.
- Hanes profedig o adeiladu perthnasau ag amrediad o randdeiliaid.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o broblemau mewn perthynas â dysgu a gwaith ar lefel gymunedol, lefel leol a lefel ranbarthol neu lefel genedlaethol.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i egluro materion cymhleth mewn ffordd glir a chryno, wrth dangos parch tuag at safbwyntiau pobl eraill.
- Crebwyll cadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol.
- Dealltwriaeth o fywyd cyhoeddus ac egwyddorion llywodraethu da.

Y Gymraeg
Mae'n ddymunol bod gan Aelodau'r Bwrdd sgiliau yn y Gymraeg.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad
Fel arfer mae cyfarfodydd y Bwrdd y cael eu cynnal yn Aberystwyth, ac mae cyfarfodydd gyda, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau'r diwydiant yn cael eu cynnal ledled Cymru, y DU ac o bosib ledled y byd.

Tâl cydnabyddiaeth
Telir £300 y dydd i Aelodau o Fwrdd HCC.

Mae modd hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill a allai godi wrth wneud gwaith HCC gan HCC o fewn y terfynau cydnabyddedig. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad ar gyfer costau gofal plant/gofalu am yr henoed/gofalwr cynorthwyol, wrth gyflawni gwaith ar ran HCC.

Ymrwymiad Amser
Rhagwelir y bydd y swydd yn galw am ymrwymiad heb fod yn fwy na **12 diwrnod y flwyddyn** i fynd i gyfarfodydd y Bwrdd (yn Aberystwyth fel arfer) a chyfarfodydd, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau'r diwydiant (ledled Cymru, y DU ac yn fyd-eang).

Cyfnod y Swydd
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig sy'n penderfynu ar hyd y penodiad, fydd am uchafswm o dair blynedd.

Atebolrwydd
Mae Aelodau Bwrdd HCC yn cael eu penodi gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ac maent yn atebol i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, drwy Lywodraeth Cymru, am gyflawni eu dyletswyddau ac ar gyfer eu perfformiad. Mae adolygiadau o berfformiad Aelodau'r Bwrdd yn cael eu cynnal gan Gadeirydd HCC.

Pwy sy'n Gymwys
Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn ffydd y cyhoedd.

Ni fydd ceisiadau gan gyfarwyddwyr sydd wedi'u hanghymhwyso yn ôl diffiniad Deddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmni 1986 yn cael eu derbyn.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod bod yn aelod o Fwrdd HCC yn swydd sy'n eich anghymhwyso rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.
http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made

Gwrthdaro buddiannau
Dylech nodi yn arbennig y gofyniad ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd HCC, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi ag awdurdod y tu allan i'r rôl yn HCC.

Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen hon ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies-june-2019.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch eich bod yn rhoi tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Maria Richards, Pennaeth Polisi Ffermio'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, wedi'i chefnogi gan Kevin Roberts Cadeirydd Bwrdd HCC (Cynrychiolydd Corff) a Stephen James, Cadeirydd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (Aelod Annibynnol o'r Panel).

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar "restr hir", cyn iddo gael ei anfon ymlaen i'w ystyried gan y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer. Mewn sefyllfa o'r fath, dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Bydd y ganolfan geisiadau yn anfon e-bost atoch i'ch hysbysu a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad neu beidio. Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweliadau yng Nghaerfyrddin.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y mae'r panel yn credu eu bod yn 'addas i'w penodi' yn cael eu hargymell i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Caiff y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr y cyfwelwyd â nhw'n cael eu hysbysu am unrhyw gynnydd yn y broses hon.

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o Fwrdd HCC, a fydd hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y mae'r penodiad yn cael ei gynnig

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am swydd a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl ac ymdrin â phob ymgeisydd mewn modd cwrtais. Os ydych am gwyno am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os oes gennych bryderon o hyd wedi derbyn ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, cewch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Cysylltwch â:

The Commissioner for Public Appointments
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849
E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk